**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
Grŵp **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Our Ref: AG/JM/SB

21 Hydref 2016

Annwyl Mr Ramsay AC

**Materion ehangach sy'n deillio o'r adolygiad llywodraethu o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 23 Medi yn codi cwestiynau a phryderon y Pwyllgor ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad blaenorol y Pwyllgor am faterion ehangach sy'n deillio o'r adolygiad llywodraethu o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

O ran argymhelliad pedwar, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi anfon neges sy'n atgoffa byrddau iechyd i rannu â ni ganlyniadau ynglŷn â'r holl waith sy'n cael ei gomisiynu, yn sgil y pryderon difrifol sy'n deillio o gŵynion. Lle y bo'n briodol, byddwn ninnau hefyd yn ymrwymo i rannu canlyniadau â byrddau iechyd eraill er mwyn hyrwyddo dysgu o fewn y GIG. Byddwn hefyd yn rhoi adroddiad ar gynnydd i'r pwyllgor (bob chwe mis) am yr adolygiad o'r canllawiau Gweithio i Wella. Byddwn yn anfon y diweddariad cyntaf yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 28 Tachwedd, 2016.

O ran eich cais mewn perthynas ag argymhelliad 25, rwy'n deall bod Dr Chamberlain wedi ymateb ichi'n uniongyrchol ynghylch rôl bresennol adolygwyr lleyg mewn cysylltiad â chynlluniau adolygu AGIC. Mae AGIC wedi comisiynu adolygiad o'r newid a fydd yn digwydd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gwblhau byddwn yn gofyn i AGIC am yr wybodaeth ddiweddaraf sy'n dangos bod manteision gweithio'n agosach a defnyddio aseswyr lleyg yn cael eu gwireddu gan gynnwys cynyddu nifer yr aseswyr a chynaliadwyedd.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk

Gwefan ● website: www.llyw.cymru

Edrychaf ymlaen at fynychu cyfarfod y Pwyllgor ar 7 Tachwedd i drafod cynnydd o ran argymhellion Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd a materion iechyd eraill yr ydych yn dymuno eu trafod.

Yn gywir



Dr Andrew Goodall